

## Diweddariad polisi'r UE (EU2012.03):

## Moderneiddio Cyfarwyddeb Cymwysterau Proffesiynol yr UE

Diweddarwyd: 17 Chwefror 2012

### Crynodeb o brif bwyntiau'r cynigion

#### Cyflwyniad

Ar 19 Rhagfyr 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd (y Comisiwn) gynigion i ddiwygio Cyfarwyddeb yr UE ar gymwysterau proffesiynol 2005.<sup>1</sup>

Prif nod y diwygiadau yw helpu i ysgogi gweithwyr proffesiynol i symud o'r naill aelod-wladwriaeth i'r llall drwy ddileu'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny. Mae'r cynigion yn rhan o'r 12 menter a nodwyd yn **Neddf y Farchnad Sengl** a gyhoeddwyd fis Ebrill 2011. Nod y Ddeddf hon yw cryfhau marchnad sengl yr UE.

Mae'r Gyfarwyddeb yn gymwys i'r 'proffesiynau a reoleiddir' yn yr UE, ac mae tua 800 ohonynt. Y 'proffesiynau a reoleiddir' yw'r rheini sy'n gofyn am gymwysterau/hyfforddiant proffesiynol 'cydnabyddedig'.

Nid yw'r Comisiwn yn cynnig Cyfarwyddeb newydd ond, yn hytrach, mae'n ceisio diwygio Cyfarwyddeb 2005.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> COM(2011)883 Gweler **gwefan Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Farchnad Fewnol**

<sup>2</sup> Cyfarwyddeb (2005/36/EC) Gweler **gwefan Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Farchnad Fewnol**

### Crynodeb o'r prif elfennau

Dyma'r prif newidiadau sy'n cael eu cynnig:

- **Creu Cerdyn Proffesiynol Ewrop:** er mwyn medru cydnabod cymwysterau'n haws ac yn gynt a'i gwneud yn haws i weithwyr proffesiynol symud i weithio dros dro mewn aelod-wladwriaeth arall. Cerdyn ar ffurf tystysgrif electronig fyddai hwn, a byddai'n caniatáu i'r gweithiwr proffesiynol gynnig gwasanaethau neu sefydlu mewn aelod-wladwriaeth arall. Lansiodd y Comisiwn grŵp arbenigol i ymchwilio i'r syniad hwn ym mis Ionawr 2011 ac, o ganlyniad, cyhoeddwyd Papur Gwyn ym mis Mehefin 2011.<sup>3</sup> Byddai Cerdyn Proffesiynol Ewrop yn cael ei roi ar waith drwy'r **System Gwybodaeth y Farchnad Fewnol (IMI)**, sy'n bod eisoes i ganiatáu i'r aelod-wladwriaethau rannu gwybodaeth.
- **Rheolau'n ymwneud â sgiilau ieithyddol:** os yw gweithwyr proffesiynol am symud i weithio mewn aelod-wladwriaeth arall, mae'r cynnig yn egluro na ddylid cadarnhau eu gallu ieithyddol nes bod eu cymhwyster wedi'i gydnabod. Yn achos gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, gall awdurdodau sicrhau bod ganddynt y gallu ieithyddol priodol os yw'r system gofal iechyd genedlaethol, neu gyrff cenedlaethol sy'n cynrychioli cleifion, yn gofyn iddynt wneud hynny, yn enwedig yn achos gweithwyr iechyd proffesiynol hunangyflogedig.
- **System rybuddio ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cael cydnabyddiaeth awtomatig:** mae'n bosibl y bydd angen i awdurdodau cymwys mewn aelod-wladwriaeth hysbysu (drwy gyfrwng yr IMI a nodwyd uchod), awdurdodau cymwys yr holl aelod-wladwriaethau eraill am weithwyr iechyd sydd wedi'u gwahardd rhag arfer eu gwaith proffesiynol. Dim ond i'r

<sup>3</sup> Gweler **gwefan Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Farchnad Fewnol DG**

gweithwyr iechyd proffesiynol hynny sy'n cael cydnabyddiaeth awtomatig (meddygon, nyrsys, bydwagedd, deintyddion, fferyllwyr, milfeddygon) y mae hyn yn berthnasol. Yn achos y proffesiynau eraill, defnyddir y system rybuddio sydd wedi'i chynnwys eisoes yn y Gyfarwyddeb Gwasanaethau.

- **Moderneiddio gofynion hyfforddiant sylfaenol sydd wedi'u cysoni:** byddai'r cynnig yn newid y diffiniad o ofynion hyfforddiant sylfaenol gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cydnabod yn awtomatig, yn enwedig meddygon, nyrsys, bydwagedd a phenseiri:
  - **Meddygon:** addysg feddygol yn seiliedig ar 5,500 awr o hyfforddiant, o fewn cyfnod o bum mlynedd. Byddai'n bosibl i aelod-wladwriaethau eithrio meddygon arbenigol yn rhannol pe baent yn barod i ddilyn ail gwrs hyfforddi arbenigol.
  - **Nyrsys a bydwagedd:** codi'r lefel mynediad ar gyfer hyfforddiant nyrsio / bydwreigiaeth o 10 i 12 mlynedd o addysg gyffredinol. Ni fyddai'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gyflwyno cyrsiau prifysgol i nyrsys a bydwagedd. Byddai nyrsys a bydwagedd sydd wedi dechrau hyfforddi cyn i'r Gyfarwyddeb newydd ddod i rym yn dal yn cael cydnabyddiaeth awtomatig.
  - **Penseiri:** 6 mlynedd o hyfforddiant, gan gynnwys naill ai 1 neu 2 flynedd o brofiad ymarferol dan oruchwyliaeth yn ogystal ag addysg brifysgol.
- **Cydymffurfio â gofynion hyfforddiant sylfaenol** : byddai'r aelod-wladwriaethau yn dynodi corff cenedlaethol i fod yn gyfrifol am sicrhau bod pob diploma newydd yn cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant sylfaenol a ddiffinnir yn y Gyfarwyddeb (ar gyfer y **saith maes proffesiynol**: meddygon, nyrsys, bydwagedd, deintyddion, fferyllwyr, milfeddygon a phenseiri).
- **Cydwertuso'r proffesiynau sydd wedi'u**

**rheoleiddio** : byddai'r aelod-wladwriaethau yn darparu rhestr o'r proffesiynau sydd wedi'u rheoleiddio ac yn cyfiawnhau'r angen i'w rheoleiddio. Byddai'r Comisiwn wedyn yn hwyluso proses o gyd-werthuso'r proffesiynau dan sylw.

## Amseru a'r broses ddeddfwriaethol

Ym mis Hydref 2011, galwodd y Cyngor Ewropeaidd am gytundeb gwleidyddol erbyn diwedd 2012 ar y 12 menter a nodwyd yn Neddf y Farchnad Sengl, gan gynnwys y cynigion i ddiwygio Cyfarwyddeb Cymwysterau Proffesiynol 2005. Cadarnhaodd Senedd Ewrop y safbwynt hwn yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2011.

## Cefndir a chyd-destun y cynigion

Mae'r cynigion yn dilyn adolygiad o Gyfarwyddeb 2005 (2005/36/EC) i gydnabod cymwysterau proffesiynol. Cynhaliodd y Comisiwn ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Gyfarwyddeb bresennol ar ddechrau 2010, ac ymgynghoriad arall ynghylch **Papur Gwyrdd** a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben fis Medi.<sup>4</sup>

Fel y nodwyd eisoes, mae'r Gyfarwyddeb yn cael ei diwygio fel rhan o'r 12 menter a nodwyd yn **Neddf y Farchnad Sengl** a gyhoeddwyd yn 2011. Ail-lansio'r Farchnad Sengl yw un o flaenoriaethau craidd yr UE, ac mae Llywodraeth y DU yn gefnogol iawn i hynny.

## Perthnasedd i Gymru

Mae caniatáu i weithwyr proffesiynol, yn enwedig gweithwyr iechyd proffesiynol, symud yn rhwydd o'r naill aelod-wladwriaeth i'r llall, yn faes sydd o

<sup>4</sup> Cafodd y Comisiwn Ewropeaidd dros 400 o ymatebion, gan gynnwys nifer gan y DU. Gweler **gwefan y Comisiwn Ewropeaidd**.

ddiddordeb i Gymru.

Ar hyn bryd, mae gan Lywodraeth y DU bwerau a gadwyd yn ôl yng nghyswllt rhai agweddau ar y proffesiwn meddygol a'r system gofal iechyd ee mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn rheoleiddio meddygon, mae'r Cyngor Fferylliaeth Cyffredinol yn rheoleiddio fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, mae Cyngor y Bydwagedd yn rheoleiddio nyrsys a bydwagedd ac mae'r polisi mewnfudo'n effeithio ar feddygon a myfyrwyr meddygol o dramor. Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ac, felly, mae gwahaniaeth yn aml rhwng cyrsiau hyfforddi, dulliau recriwtio, cytundebau, cymhelliannau ac amgylcheddau gwaith yng Nghymru ac yn y DU.

#### Mae **Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd** (NLIAH) yn cynorthwyo

Llywodraeth Cymru i gynllunio ac i weithredu gofynion y gweithlu, o ran niferoedd a sgiliau, ac mae'r corff yn rhan hanfodol o'r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol allweddol a nodwyd yn agendâu *Cynllun Oes*, *Cynllun Cyflenwi*, *Cynllun Gwaith* a *Law yn Llaw at Iechyd*.

Ar 1 Chwefror 2012, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch i annog rhagor o feddygon i wneud cais i weithio yng Nghymru.<sup>5</sup> Mae'n anodd denu meddygon i rai rhannau o Gymru a'r DU, yn enwedig mewn rhai meysydd arbenigol fel meddygaeth frys, seiciatreg a phaediatreg. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru ystyried recriwtio rhagor o feddygol o'r UE i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio.<sup>6</sup>

Mae'r **Cyngor Meddygol Cyffredinol**, sy'n gyfrifol am gofrestru meddygon i weithio yn y DU (gan gynnwys Cymru), wedi mynegi pryder am rai meddygon o'r UE

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, **Ymgyrch newydd i ddenu rhagor o feddygon i Gymru**, 1 Chwefror 2012 [fel ar 10 Chwefror 2012]

<sup>6</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Cofnod y Trafodion [para 68]**, 25 Ionawr 2012 [fel ar 20 Chwefror 2012]

nad oes ganddynt ddigon o allu ieithyddol i weithio yn y DU, ac am rai nad oes ganddynt y cymhwysedd clinigol i wneud hynny. Mae'r diwygiadau i'r Gyfarwyddeb yn ceisio sicrhau bod y mesurau diogelwch sydd ar gael yn y maes hwn yn gliriach.

Mae **Swyddfa Ewropeaidd Cydffederasiwn y GIG**<sup>7</sup> yn croesawu nifer o elfennau yng nghynigion y Comisiwn. Mae wedi mynegi pryder, fodd bynnag, ynghylch Cerdyn Proffesiynol Ewrop, ac mae'n galw am gryfhau'r rheolau'n ymwneud â chadarnhau gallu ieithyddol, ac i'r cyrff rheoleiddio fedru rhybuddio'i gilydd am yr holl sancsiynau disgyblu, gan gynnwys sancsiynau llai difrifol na gwahardd gweithwyr dros dro, neu'n barhaol, o'r gofrestr broffesiynol mewn unrhyw aelod-wladwriaeth.

## Barn Llywodraeth y DU

### **Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Femorandwm Esboniadol<sup>8</sup> ar 12 Ionawr 2012 yn nodi'i hymateb i gynigion y Comisiwn.**

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU, yn gyffredinol, yn croesawu'r newidiadau a gynigir i'r Gyfarwyddeb bresennol. Mae'n nodi bod y diwygiadau arfaethedig yn cynnwys nifer o awgrymiadau gan Lywodraeth y DU a chyrrff eraill o'r DU sydd â diddordeb. Mae'n arbennig o falch bod y diwygiadau arfaethedig yn cynnwys gofyn i'r aelod-wladwriaethau sicrhau bod y modd y maent yn rheoleiddio proffesiynau perthnasol yn gymesur ac yn angenrheidiol, a'u bod yn rhoi gwybod i'r Comisiwn amdanynt.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn croesawu nifer o agweddau eraill ar y Gyfarwyddeb, ond mae'n credu bod angen iddynt fod yn fwy eglur.

<sup>7</sup> Gweler **Papur briffio Ewropeaidd 8 Chwefror 2012: Swyddfa Ewropeaidd y GIG**

<sup>8</sup> **Ar gael ar wefan Swyddfa Cabinet y DU**

Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Profion ieithyddol:** er bod y cynigion yn ymdrin i raddau â phryderon rheoleiddwyr iechyd y DU, mae Llywodraeth y DU yn teimlo bod angen egluro'r testun yn y Gyfarwydddeb ymhellach i amlygu holl oblygiadau'r newidiadau arfaethedig.
- **Sicrhau mai'r awdurdod cymwys yn yr aelod-wladwriaeth y mae'r gweithiwr proffesiynol am symud iddi sy'n gyfrifol am gymeradwyo ceisiadau am Gerdyn Proffesiynol Ewrop,** a sicrhau bod yr amserlen ar gyfer cymeradwyo ceisiadau'n fwy synhwyrol.
- Mae llawer o'r cynigion yn caniatáu i'r Comisiwn ddeddfu ar y fframweithiau ar gyfer proffesiynau unigol, neu greu canllawiau penodol ar gyfer meysydd fel diogelu data. **Mae Llywodraeth y DU yn ystyried sicrhau bod y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r mecanweithiau hyn yn cynnwys rhwymedigaethau amlycach ar y Comisiwn i ymgynghori ag aelod-wladwriaethau a rhanddeiliaid lle bo hynny'n briodol.**

## Barn Llywodraeth Cymru

Gan fod rhai o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y Gyfarwydddeb hon yn faterion sydd wedi'u datganoli, ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru, a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, wrth baratoi Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU.

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes unrhyw fanylion am farn Llywodraeth Cymru am y cynigion. Ni chyflwynodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod haf 2011.

## Hynt y cynigion yn sefydliadau'r UE

**Caiff yr adran hon ei diweddarw wrth i'r trafodaethau ym Mrwsel fynd rhagddynt ac wrth i safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn**

**gliriach.**

## Monitro'r cynigion

Caiff y cynigion eu mabwysiadu drwy'r 'broses ddeddfu gyffredin' (cydbenderfyniad), sy'n golygu bod yn rhaid i Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion (hy llywodraethau'r aelod-wladwriaethau) gytuno ar y testun terfynol, gyda'r Comisiwn yn gweithredu fel brocer.

Mae modd dilyn hynt y cynigion drwy broses benderfynu'r UE ar ddwy wefan:

- **Arsyllfa Ddeddfwriaethol Senedd Ewrop**
- **Gwefan Pre-Lex y Comisiwn Ewropeaidd**

Sylwch: bydd y tudalennau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y drafodaeth gyffredinol yn yr UE, ond ni fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol am safbwyntiau/buddiannau'r DU neu Gymru. Byddwn yn ymdrin â hynny yn yr adrannau isod.

## Senedd Ewrop:

Y prif bwyllgor fydd y **Pwyllgor Diwydiant, Ymchwil ac Ynni** sy'n cael ei gadeirio gan **ASE yr Almaen Herbert Reul** (Plaid Pobl Ewrop EPP, plaid adain dde gymedrol, a'r blaid fwyaf yn Senedd Ewrop). Nid oes yr un ASE o Gymru ar y Pwyllgor hwn. Mae pedwar ASE o'r DU ar y Pwyllgor, fodd bynnag: tri aelod ac un dirprwy.

Y rapporteur yw: **ASE Ffrainc Bernadette Vergnaud** (Grŵp y Sosialwyr a'r Democratiaid).

## Cyngor y Gweinidogion:

Yng Nghyngor y Gweinidogion, y **Cyngor Cystadleurwydd**, fydd yn arwain, a bydd gweithgorau, a fydd yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth y DU, yn trafod yr agweddau technegol ar y newidiadau arfaethedig. Mae dau gyfarfod o'r Cyngor Cystadleurwydd wedi'u trefnu (20-21 Chwefror a 30-31 Mai) yn ystod **Llywyddiaeth Denmarc**, er nad yw'n ymddangos bod y diwygiadau i'r Gyfarwydddeb wedi'u

cynnwys ar agenda'r naill gyfarfod na'r llall. Bydd Gweinidogion y DU (a'u swyddogion) yn cynrychioli Cymru yn ystod y trafodaethau hyn (yng nghyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a'r gweithgorau)

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Gregg Jones (**[Gregg.Jones@wales.gov.uk](mailto:Gregg.Jones@wales.gov.uk)**) Swyddfa'r UE, ffôn 0032 2 226 6692, neu 0044 781 616 4455